Medr
Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

This document is also available in English |
Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg

## Ystadegau Medr

# Nodweddion cydraddoldeb myfyrwyr a staff mewn darparwyr addysg uwch: 2024/25


| | |
|---|---|
| **Cyfeirnod:** | Sta/Medr/07/2026 |
| **Dyddiad:** | 24 Mawrth 2026 |
| **Dynodiad:** | Ystadegau swyddogol |
| **E-bost:** | YstadegauAU@medr.cymru |



| | |
|---|---|
| **Crynodeb:** | Ystadegau ar nodweddion cydraddoldeb myfyrwyr a staff mewn darparwyr addysg uwch yng Nghymru o flwyddyn academaidd 2018/19 i flwyddyn academaidd 2024/25 |
| **Thema:** | Addysg uwch |
| **Ffynhonnell:** | Cofnodion Myfyrwyr a Staff yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) |



Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg ac yn Saesneg
We welcome correspondence in Welsh and in English
Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi
Corresponding in Welsh will not lead to delays.

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

# Prif bwyntiau

**Myfyrwyr**

Mae myfyrwyr yn cael eu cyfrif fesul ymrestriad, felly os yw myfyriwr wedi ymrestru ar sawl cwrs mewn blwyddyn academaidd bydd yn cael ei gyfrif sawl gwaith. Mae'r data'n cynnwys ymrestriadau ym mhob darparydd yng Nghymru sy'n cyflwyno data i gofnod myfyrwyr HESA. Mae hyn yn cynnwys darparwyr sy'n cael eu hariannu'n uniongyrchol ar gyfer darpariaeth addysg uwch gan Medr a darparwyr yng Nghymru sy'n dychwelyd data i HESA am gyrsiau wedi'u dynodi'n benodol.

- Cynyddodd cyfran yr ymrestriadau gan fyfyrwyr ag anabledd yn gyson o 14% yn 2018/19 i 22% yn 2024/25.
- Cynyddodd cyfran yr ymrestriadau gan fyfyrwyr o'r DU o gefndir lleiafrifol ethnig o 12% yn 2018/19 i 17% yn 2022/23.
- Myfyrwyr benywaidd oedd y rhan fwyaf o'r ymrestriadau. Myfyrwyr benywaidd fu 57% o'r ymrestriadau bob blwyddyn ers 2022/23.

**Staff**

Mae'r data am staff yn ymwneud â staff yn yr wyth prifysgol yng Nghymru sy'n cyflwyno data i gofnod staff HESA. Nid yw'r Brifysgol Agored yng Nghymru wedi'i chynnwys gan fod y data a gesglir am staff y Brifysgol Agored yn cynnwys yr holl Deyrnas Unedig, ac nid Cymru yn benodol.

Cyfrifir niferoedd staff drwy ddefnyddio nifer cyfwerth â pherson llawn ar gyfer staff ar 1 Rhagfyr yn y flwyddyn adrodd, er enghraifft 1 Rhagfyr 2024 ar gyfer 2024/25. Nid yw staff ar gontractau annodweddiadol wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn gan na ellir eu cymharu â'r rhai ar fathau eraill o gontractau.

- O 2018/19 i 2024/25, cynyddodd cyfran y staff oedd ag anabledd yn gyson.
  - Ar gyfer staff academaidd cynyddodd y gyfran o 5% yn 2018/19 i 8% yn 2024/25.
  - Ar gyfer staff anacademaidd, cynyddodd y gyfran o 7% yn 2018/19 i 11% yn 2024/25.
- O 2018/19 i 2024/25, cynyddodd cyfran y staff o gefndir lleiafrifol ethnig.
  - Ar gyfer staff academaidd, cynyddodd y gyfran o 12% yn 2018/19 i 20% yn 2024/25.
  - Ar gyfer staff anacademaidd, cynyddodd y gyfran o 5% yn 2018/19 i 7% yn 2024/25.
- Yn y gorffennol, mae mwyafrif y staff academaidd wedi bod yn ddynion. Yn 2024/25 roedd ychydig mwy eto o staff academaidd yn ddynion (5,560 aelod o staff) na menywod (5,495), ond roedd y naill a'r llall i gyfrif am 50%. Mewn cymhariaeth â hyn, roedd 53% o staff academaidd yn ddynion yn 2018/19.
- Roedd mwyafrif y staff anacademaidd yn fenywod. Roedd 63% o staff anacademaidd yn fenywod yn 2024/25, sy'n debyg i'r blynyddoedd cynt.

# Cynnwys

Prif bwyntiau ..... 1
Cyflwyniad ..... 3
Dyfodol y cyhoeddiad hwn ..... 3
Myfyrwyr ..... 3
Oedran ..... 3
Anabledd ..... 4
Ethnigrwydd ..... 5
Rhyw ..... 6
Staff ..... 8
Oedran ..... 8
Anabledd ..... 9
Ethnigrwydd ..... 10
Rhyw ..... 11
Gwybodaeth am ansawdd a methodoleg ..... 13
Ffynonellau data ..... 13
Cwmpas ..... 13
Diffiniadau ..... 14
Talgrynnu ..... 15
Ystadegau cysylltiedig ..... 15
Datganiad Cydymffurfiaeth â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau ..... 15
Gwybodaeth Gyswllt ..... 16

# Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys dadansoddiad ysgrifenedig o ddata oedran, anabledd, ethnigrwydd a rhyw ar gyfer myfyrwyr a staff mewn darparwyr addysg uwch yng Nghymru. Mae'n cyd-fynd â dangosfwrdd y ceir hyd iddo ar wefan Medr.

Ceir hyd i'r data hefyd mewn taenlen gysylltiedig ar wefan Medr.

Ceir data hefyd ar StatsCymru:

- Ymrestriadau myfyrwyr a chymwysedigion mewn darparwyr addysg uwch yng Nghymru yn ôl nodweddion personol
- Staff addysg uwch yng Nghymru yn ôl nodweddion personol a dosbarthiad galwedigaethol safonol

# Dyfodol y cyhoeddiad hwn

Mae Medr yn bwriadu ystyried a ellid ymgorffori'r cyhoeddiad hwn yn ein cyhoeddiadau Myfyrwyr mewn addysg uwch a Staff mewn sefydliadau addysg uwch gan fod llawer o orgyffwrdd rhwng y dogfennau. Rydym yn bwriadu siarad â defnyddwyr i ddeall a ellir gwneud hyn heb effeithio ar y defnydd o'r ystadegau, gan wneud defnydd mwy effeithlon o adnoddau.

Os hoffech chi fynegi eich barn ar hyn ac egluro sut rydych yn defnyddio'r cyhoeddiad hwn, cysylltwch â ni yn YstadegauAU@medr.cymru erbyn 29 Mai 2026.

# Myfyrwyr

## Oedran

### Sector

Myfyrwyr dan 21 oed oedd dros draean (36%) yr ymrestriadau yn 2024/25. Mae nifer y myfyrwyr o'r grŵp oedran hwn wedi cynyddu bob blwyddyn ers 2020/21. Fodd bynnag, roedd y gyfran yn gostwng tan 2022/23 (32%) ond cynyddodd eto yn 2023/24 (33%) a 2024/25. Mae hyn yn gysylltiedig â newidiadau i niferoedd yr ymrestriadau ar gyfer cyrsiau gradd ac ôl-radd ar draws y blynyddoedd hyn.

Ers 2022/23, mae nifer y myfyrwyr sy'n 21 oed a hŷn wedi gostwng bob blwyddyn. Mae hyn hefyd yn wir wrth edrych ar y grwpiau oedran mwy manwl (21 i 24, 25 i 29, a 30 a throsodd).

### Darparwyr

Roedd y sefyllfa ym mhob darparydd AU yng Nghymru yn adlewyrchu patrwm y sector yn bennaf, gyda chynnydd yn y grŵp oedran ieuengaf ond gostyngiadau yn y grwpiau

oedran hŷn. Fodd bynnag, ceir gwahaniaethau amlwg rhwng y proffil oedran mewn darparwyr penodol.

Yn 2024/25, roedd bron i ddwy ran o dair (65%) o fyfyrwyr y Brifysgol Agored yn 30 oed neu'n hŷn, gyda phumed ran arall (18%) o fyfyrwyr rhwng 25 a 29 oed. Dim ond tua 5% o fyfyrwyr y Brifysgol Agored sydd o dan 21 oed bob blwyddyn.

Roedd mwyafrif y myfyrwyr addysg uwch yn Sefydliad Padarn Sant (94%) a Chanolfan y Dechnoleg Amgen (68%) hefyd yn 30 oed neu'n hŷn yn 2024/25.

Ym Mhrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant a hefyd ym Mhrifysgol Wrecsam gwelwyd cynnydd mawr mewn ymrestriadau gan rai 30 oed a throsodd rhwng 2018/19 a 2022/23. Mae nifer yr ymrestriadau yn y grŵp oedran hwn wedi gostwng rhywfaint ers hynny, ond yn dal i gyfrif am bron hanner yr ymrestriadau o fewn y darparwyr hyn.

I'r gwrthwyneb, roedd y mwyafrif o fyfyrwyr o dan 21 oed yn 2024/25 mewn amryw o ddarparwyr. Roedd 53% o fyfyrwyr ym Mhrifysgol Aberystwyth, Prifysgol Caerdydd a Phrifysgol Metropolitan Caerdydd o dan 21 oed yn 2024/25, tra'r oedd ychydig o dan hanner (49%) o dan 21 oed ym Mhrifysgol Abertawe.

## Anabledd

Mae'r data lefel sector wedi'u cyflwyno ar sail y data manylaf yn deillio o'r newidyn anabledd ar gofnod Myfyrwyr HESA. Mae hyn yn cynnwys categori ar gyfer y rhai sydd ag 'Amhariadau lluosog, cyflyrau iechyd, neu wahaniaethau dysgu'. Os caiff myfyriwr ei gyfrif yn y grŵp hwn mae'n golygu nad yw hefyd wedi'i gyfrif yn y categorïau anabledd ar wahân.

Ar lefel y darparydd mae'r data wedi'u cyfuno'n ddau grŵp: ‘Anabl' a 'Dim anabledd hysbys’. Mae hyn er mwyn lleihau'r risg o ddatgelu gwybodaeth am unigolion gan fod y niferoedd yn fach.

### Sector

Mae nifer a chyfran y myfyrwyr sy'n datgelu anabledd wedi bod yn cynyddu'n gyson o flwyddyn i flwyddyn. Yn 2024/25, myfyrwyr y gwyddys bod ganddynt anabledd oedd 22% o'r 143,825 o ymrestriadau.

Y categori anabledd mwyaf cyffredin yn 2024/25 oedd gwahaniaethau dysgu fel dyslecsia, dyspracsia neu AD(H)D. Nododd 6% o'r holl fyfyrwyr fod ganddynt anabledd yn y categori hwn yn 2024/25.

Yr ail gategori anabledd mwyaf cyffredin yn 2024/25 oedd cael cyflwr, her neu anhwylder iechyd meddwl, fel iselder, sgitsoffrenia neu orbryder. Myfyrwyr ag anabledd yn y categori hwn oedd 5% o'r rhai a ymrestrodd yn 2024/25. Dyma'r categori lle gwelwyd y cynnydd mwyaf dros y blynyddoedd diwethaf, gan godi o 4,670 o fyfyrwyr yn 2018/19 i 7,165 o fyfyrwyr yn 2024/25.

Bu cynnydd mawr hefyd yn nifer y myfyrwyr sydd â chyflyrau lluosog. Rhwng 2018/19 a 2024/25 gwnaeth y nifer fwy na threblu, o 2,010 i 6,750, neu o 2% i 5% o fyfyrwyr.

Cafwyd cyfran fawr o'r cynnydd hwn ers 2022/23, gyda'r nifer yn codi o 4,075 i 6,750 rhwng y blynyddoedd hynny'n unig.

### Darparwyr

Mae cyfrannau'r myfyrwyr sydd ag anabledd yn tueddu i gynyddu ym mhob darparydd, er bod hyn yn amrywio mwy mewn darparwyr â llai o ymrestriadau.

Yn 2024/25 roedd cyfran y myfyrwyr ag anabledd hysbys ym mhob darparydd yn amrywio rhwng 6% yng Ngholeg Gwent a 37% yn Sefydliad Padarn Sant. O fewn y prifysgolion roedd hyn yn amrywio rhwng 15% ym Mhrifysgol Caerdydd a 31% ym Mhrifysgol Aberystwyth a'r Brifysgol Agored.

## Ethnigrwydd

Mae'r adran hon yn trafod cefndiroedd lleiafrifol ethnig myfyrwyr sy'n byw yn y DU. Yn yr adran hon, mae 'cefndiroedd lleiafrifol ethnig' yn cyfeirio at bob cefndir ethnig heblaw am gefndiroedd ethnig Gwyn.

Mae'r dadansoddiad wedi'i gyfyngu i fyfyrwyr sy'n byw yn y DU gan nad yw cofnod myfyrwyr yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) ond yn casglu data ethnigrwydd ar gyfer myfyrwyr sy'n byw yn y DU.

Mae'r data lefel sector wedi'u cyflwyno ar sail y data manylaf yn deillio o'r newidyn ethnigrwydd ar gofnod Myfyrwyr HESA. Er eu bod wedi'u cynnwys yn y categori Gwyn, cesglir data ar gyfer y grwpiau lleiafrifol ethnig Gwyn, sef 'Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig' a 'Roma’. Yn 2024/25, cafwyd 60 o ymrestriadau gan fyfyrwyr o gefndir ethnig Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig, a 150 o ymrestriadau gan fyfyrwyr o gefndir ethnig Roma.

Mae'r data lefel darparydd wedi'u cyfuno i'r grwpiau canlynol: Asiaidd, Du, Cymysg, Arall a Gwyn. Mae hyn er mwyn lleihau'r risg o ddatgelu gwybodaeth am unigolion gan fod y niferoedd yn fach.

Gall nifer y myfyrwyr ag ethnigrwydd anhysbys amharu ar ansawdd y data hyn. Ar draws y cyfnod mae lefel y cofnodion anhysbys ar lefel y sector wedi amrywio rhwng 1% a 3%. Cyfran cymharol fach yw hyn o gyfanswm y boblogaeth o fyfyrwyr, ond pe bai'r myfyrwyr anhysbys hyn, i raddau anghymesur, yn fyfyrwyr o gefndiroedd lleiafrifol ethnig, byddai hynny'n golygu bod nifer y myfyrwyr o'r cefndiroedd ethnig hyn wedi'u tanadrodd i raddau sylweddol.

### Sector

Mae nifer a chyfran y myfyrwyr o gefndir lleiafrifol ethnig wedi cynyddu'n gyson o flwyddyn i flwyddyn. Yn 2024/25, myfyrwyr o gefndir lleiafrifol ethnig oedd 17% o'r ymrestriadau gan fyfyrwyr o'r DU.

Y ddau grŵp lleiafrifol ethnig mwyaf yn 2024/25 oedd 'Cefndiroedd ethnig cymysg a lluosog' a 'Du Affricanaidd neu Ddu Affricanaidd Prydeinig’. Roedd y grŵp cyntaf i gyfrif am 4% a'r ail grŵp i gyfrif am 3% o'r holl fyfyrwyr, a'r rheiny oedd y grwpiau mwyaf yn y blynyddoedd cyn hynny hefyd.

Rhwng 2018/19 a 2024/25, y cefndiroedd lleiafrifol ethnig lle roedd nifer y cofrestriadau wedi mwy na dyblu oedd:

- Unrhyw gefndir ethnig arall – cynnydd o 105% o 1,115 i 2,290.
- Pacistanaidd neu Brydeinig Pacistanaidd – cynnydd o 101% o 1,285 i 2,580 o fyfyrwyr, gan ddod yn drydydd grŵp mwyaf yn 2024/25.

### Darparwyr

Roedd cyfran y myfyrwyr o gefndir lleiafrifol ethnig ym mhob darparydd yn 2024/25 yn amrywio rhwng 0% yng Ngholeg Gŵyr Abertawe a 35% ym Mhrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant. Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant oedd â'r gyfran uchaf o fyfyrwyr (7%) o gefndir ethnig anhysbys a allai effeithio ar y gyfran hon. Fodd bynnag, hyd yn oed o dybio bod pob myfyriwr o gefndir ethnig anhysbys yn Wyn, byddai cyfran y myfyrwyr o gefndir lleiafrifol ethnig yn dal i fod yn 32%, a fyddai'n dal i fod yr uchaf yn y sector

Ar draws darparwyr unigol, y duedd gyffredinol oedd cyfran gynyddol o fyfyrwyr o gefndir lleiafrifol ethnig. Fod bynnag, gwelwyd mwy o amrywiadau ymhlith darparwyr â niferoedd llai o ymrestriadau.

Gwelwyd y cynnydd mwyaf yng nghyfran y myfyrwyr o leiafrifoedd ethnig ym:

- Mhrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant – 23% yn 2018/19 i 35% yn 2024/25. Mae'r ffaith bod gan Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant gampysau yn Llundain a Birmingham yn ffactor cysylltiedig. Mae hyn yn golygu bod dosbarthiad y boblogaeth yn yr ardaloedd hynny'n effeithio mwy ar y ffigurau ar gyfer Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant o gymharu â sefydliadau eraill.
- Prifysgol Wrecsam – 5% yn 2018/19 i 17% yn 2024/25.
- Prifysgol Abertawe – 13% yn 2018/19 i 20% yn 2024/25.

## Rhyw

Yn 2022/23, cyflwynwyd yr opsiwn i fyfyrwyr wrthod darparu data rhyw. Ym mhob blwyddyn ers 2022/23, roedd gwybodaeth am ryw wedi'i gwrthod neu heb fod ar gael ar gyfer tua 0.2% o fyfyrwyr.

### Sector

Ym mhob blwyddyn rhwng 2018/19 a 2024/25, roedd mwyafrif y myfyrwyr yn fenywod. Mae'r mwyafrif hwn wedi cynyddu ychydig dros y cyfnod hwn, o 56% yn 2018/19 i 57% yn 2024/25.

Er bod llai nag 1% o fyfyrwyr wedi nodi eu bod o ryw 'Arall', cynyddodd nifer y myfyrwyr yn y grŵp hwn yn sylweddol o 155 yn 2018/19 i 865 yn 2024/25.

## Darparwyr

Roedd y mwyafrif o fyfyrwyr yn fenywod ym mhob un o'r darparwyr ond pedwar yn 2024/25. Roedd pob un o'r pedwar â mwyafrif o ddynion yn ddarparwyr llai (Grŵp Colegau NPTC, Coleg Caerdydd a'r Fro, Coleg Gwent a Choleg Cambria).

Yn 2022/23 roedd y mwyafrifoedd ym mhob darparydd yn amrywio rhwng mwyafrif o 86% o ddynion yng Ngrŵp Colegau NPTC a mwyafrif o 68% o fenywod yn y Brifysgol Agored yng Nghymru.

## Staff

Mae niferoedd y staff a gyflwynir yn cyfateb i'r nifer cyfwerth â pherson llawn, ar sail poblogaeth contract staff HESA, sy'n cynnwys y contractau hynny a oedd yn weithredol ar 1 Rhagfyr yn y flwyddyn academaidd berthnasol.

Nid chynhwysir data ynghylch staff annodweddiadol. Staff annodweddiadol yw'r aelodau hynny o staff y mae eu contractau'n cynnwys trefniadau gwaith nad ydynt yn barhaol, sy'n cynnwys perthnasoedd cyflogaeth cymhleth ac/neu sy'n cynnwys gwaith y tu hwnt i oruchwyliaeth y darparydd gwaith arferol.

Yn wahanol i gofnod myfyrwyr HESA, yr unig ddarparwyr yng Nghymru sy'n cyflwyno data i gofnod staff HESA yw'r wyth prifysgol. Nid yw'r Brifysgol Agored yng Nghymru wedi'i chynnwys gan fod y data a gesglir am staff y Brifysgol Agored yn cynnwys yr holl Deyrnas Unedig, ac nid Cymru yn benodol.

### Oedran

#### Sector – staff academaidd

Mae dosbarthiad oedran staff academaidd wedi aros yr un peth yn fras dros y blynyddoedd diwethaf.

Y grŵp oedran mwyaf ymhlith staff academaidd oedd y grŵp 36 i 45 oed, gan gyfrif am 29% o staff academaidd yn 2024/25. Roedd chwarter arall (26%) rhwng 46 a 55 oed.

Roedd rhaniad cymharol gyfartal o staff academaidd yn y grwpiau oedran ieuengaf (25 oed ac iau) a hynaf (66 oed a throsodd), sef 3% yn y naill a 4% yn y llall.

#### Sector - staff anacademaidd

Yn yr un modd â staff academaidd, y grŵp oedran 36 i 45 oed oedd y grŵp oedran mwyaf, a dyma'r sefyllfa ers sawl blwyddyn. Yn 2024/25, roedd 28% o staff anacademaidd rhwng 36 a 45 oed.

Gwelir y gwahaniaeth mwyaf ym mhroffil oedran staff anacademaidd o'i gymharu â staff academaidd yn y grwpiau oedran ieuengaf a hynaf. Roedd 7% o staff anacademaidd yn 2024/25 yn 25 oed neu'n iau, ond dim ond 2% oedd yn 66 oed neu'n hŷn.

#### Darparwyr – staff academaidd

Yn 2024/25, mewn tri darparydd nid y grŵp 36 i 45 oed oedd y grŵp oedran mwyaf, fel y gwelwyd yn gyffredinol yn y sector. Y darparwyr hyn oedd Prifysgol Aberystwyth, Prifysgol De Cymru a Phrifysgol Wrecsam, lle'r oedd y grŵp oedran mwyaf rhwng 46 a 55 oed.

Prifysgol Caerdydd oedd yr unig ddarparydd lle roedd nifer y staff academaidd 25 oed neu iau yn fwy na nifer y staff academaidd 66 oed neu hŷn.

**Darparwyr - staff anacademaidd**

Roedd tri darparydd lle roedd y grŵp oedran mwyaf yn wahanol i grŵp oedran mwyaf y sector, sef 36 i 45 oed. Y darparwyr hyn oedd Prifysgol Aberystwyth, Prifysgol Bangor a Phrifysgol Wrecsam. Yn y ddwy gyntaf, y grŵp oedran mwyaf cyffredin ar gyfer staff anacademaidd oedd 45 i 55 oed, a'r grŵp oedran 26 i 34 oed oedd yr un mwyaf cyffredin ym Mhrifysgol Wrecsam.

Prifysgol Aberystwyth oedd â'r gwahaniaeth mwyaf rhwng y grwpiau oedran ieuengaf a hynaf. Roedd 14% o staff anacademaidd ym Mhrifysgol Aberystwyth yn 25 oed neu'n iau, o gymharu â 3% a oedd yn 66 oed neu'n hŷn.

## Anabledd

Mae'r data lefel sector wedi'u cyflwyno drwy ddefnyddio'r data manylaf yn deillio o'r newidyn Anabledd ar gofnod Myfyrwyr HESA. Mae hyn yn cynnwys categori ar gyfer y rhai sydd ag 'Amhariadau lluosog, cyflyrau iechyd, neu wahaniaethau dysgu'. Os caiff myfyriwr ei gyfrif yn y grŵp hwn mae'n golygu nad yw hefyd wedi'i gyfrif yn y categorïau anabledd ar wahân.

Ar lefel y darparydd mae'r data wedi'u cyfuno'n ddau grŵp: ‘Anabl' a 'Dim anabledd hysbys’. Mae hyn er mwyn lleihau'r risg o ddatgelu gwybodaeth am unigolion gan fod y niferoedd yn fach.

**Sector – staff academaidd**

Mae nifer a chyfran y staff academaidd sy'n datgan anabledd wedi cynyddu'n gyson ers sawl blwyddyn. Yn 2024/25 roedd nifer y staff academaidd yn 880, neu 8% o'r holl staff academaidd.

Y categori anabledd mwyaf cyffredin a ddatganwyd gan staff academaidd oedd salwch neu gyflwr iechyd hirdymor fel canser, HIV, diabetes, clefyd cronig y galon, neu epilepsi. Datganodd 205 (2%) o aelodau staff academaidd anabledd yn y categori hwn yn 2024/25, gan gynyddu o 125 yn 2018/19.

Yr ail gategori mwyaf cyffredin oedd gwahaniaeth dysgu fel dyslecsia, dyspracsia neu AD(H)D. Roedd gan 190 (2%) o aelodau staff academaidd anabledd yn y categori hwn yn 2024/25. Mae hyn yn cymharu â 125 o staff yn 2018/19.

Yn ogystal â'r ddau gategori anabledd uchod, cododd nifer y staff â chyflwr, her neu anhwylder iechyd meddwl, fel iselder, sgitsoffrenia neu orbryder bron ddwywaith yn uwch. Yn 2024/25, roedd gan 130 o aelodau staff academaidd anabledd yn y categori hwn o'i gymharu â 65 yn 2016/17.

**Sector - staff anacademaidd**

Er bod nifer y staff anacademaidd ag anabledd wedi bod yn cynyddu ar y cyfan, bu gostyngiad bach yn 2024/25 (1,165) o gymharu â 2023/24 (1,180). Fodd bynnag, cynyddodd cyfran y staff anacademaidd ag anabledd i 11% yn 2024/25.

Y categori anabledd mwyaf cyffredin a ddatganwyd gan staff anacademaidd oedd salwch neu gyflwr iechyd hirdymor fel canser, HIV, diabetes, clefyd cronig y galon, neu epilepsi.

Datganodd 265 (2%) o aelodau staff anacademaidd anabledd yn y categori hwn yn 2024/25, gan gynyddu o 205 yn 2018/19.

Yr ail gategori mwyaf cyffredin oedd gwahaniaeth dysgu fel dyslecsia, dyspracsia neu AD(H)D. Roedd gan 235 (2%) o aelodau staff anacademaidd anabledd yn y categori hwn yn 2024/25. Roedd hyn o gymharu â 145 o staff yn 2018/19.

Yn ogystal â'r ddau gategori anabledd uchod, bu cynnydd mawr yn nifer y staff anacademaidd sydd â chyflwr, her neu anhwylder iechyd meddwl, fel iselder, sgitsoffrenia neu orbryder. Yn 2024/25, roedd gan 215 o staff anacademaidd anabledd yn y categori hwn o gymharu â 110 yn 2018/19.

**Darparwyr – staff academaidd**

Cynyddodd nifer a chyfran y staff academaidd a ddatganodd anabledd rhwng 2018/19 a 2024/25 ym mhob darparydd, ac eithrio Prifysgol Wrecsam. Roedd ffigurau Prifysgol Wrecsam yn is yn 2023/24 a 2024/25 nag yn y blynyddoedd blaenorol.

Yn 2024/25, roedd cyfran y staff academaidd a ddatganodd anabledd mewn darparwyr AU yng Nghymru yn amrywio rhwng 5% ym Mhrifysgol Wrecsam ac 13% ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd.

**Darparwyr - staff anacademaidd**

Cynyddodd nifer a chyfran y staff anacademaidd a ddatganodd anabledd rhwng 2018/19 a 2024/25 ym mhob darparydd ac eithrio Prifysgol Wrecsam. Er gwaethaf y cynnydd cyffredinol dros y cyfnod hwn, gostyngodd nifer a chyfran y staff anacademaidd ag anabledd ym Mhrifysgol Bangor yn 2023/24 a 2024/25.

Yn 2024/25, roedd cyfran y staff anacademaidd a ddatganodd anabledd mewn darparwyr AU yng Nghymru yn amrywio rhwng 6% ym Mhrifysgol Wrecsam ac 14% ym Mhrifysgol Aberystwyth.

## Ethnigrwydd

Yn yr adran hon, mae 'cefndiroedd lleiafrifol ethnig' yn cyfeirio at bob cefndir ethnig heblaw am gefndiroedd ethnig Gwyn. Cesglir data ar gyfer y grwpiau lleiafrifol ethnig gwyn 'Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig' a 'Roma'. Ffigurau sengl fu nifer y staff o'r cefndiroedd ethnig hyn bob blwyddyn.

Cyflwynir y data lefel sector gan gynnwys yr un categorïau manwl â'r data myfyrwyr.

Mae'r data lefel darparydd wedi'u cyfuno i'r grwpiau canlynol: Asiaidd, Du, Cymysg, Arall a Gwyn. Mae hyn er mwyn lleihau'r risg o ddatgelu gwybodaeth am unigolion gan fod y niferoedd yn fach.

Roedd cyfran sylweddol o staff naill ai â'u hethnigrwydd yn anhysbys neu ddim ar gael, neu roedd hi'n well ganddynt beidio â dweud. Mae hyn yn effeithio ar ba mor gynrychioliadol yw'r data o'r boblogaeth gyfan o staff, a dylid ystyried hynny wrth ddehongli'r data. Yn 2024/25, roedd 11% o staff academaidd ar draws y sector yn y categori hwn, ar ôl cynyddu o 6% yn 2018/19. Bydd yr effaith yn arbennig o amlwg ym Mhrifysgol De Cymru lle cofnodwyd ethnigrwydd anhysbys ar gyfer 34% o staff

academaidd. Yn achos staff anacademaidd mae canran y staff â'r gwerthoedd ethnigrwydd anhysbys hyn wedi amrywio rhwng 3% a 5%, a 4% oedd y ganran yn 2024/25.

### Sector – staff academaidd

Mae nifer a chyfran y staff academaidd o gefndir lleiafrifol ethnig wedi cynyddu rhwng 2018/19 a 2024/25. O blith y staff academaidd yr oedd eu cefndir ethnig yn hysbys, roedd gan 12% gefndir lleiafrifol ethnig yn 2018/19 a chynyddodd hyn i 20% yn 2024/25.

Tsieineaidd neu Tsieineaidd Prydeinig fu'r grŵp cefndir ethnig lleiafrifol mwyaf ymhlith staff academaidd ers 2018/19, ac roeddent i gyfrif am 4% o staff academaidd yn 2024/25.

### Sector - staff anacademaidd

Cynyddodd nifer a chyfran y staff anacademaidd o gefndir lleiafrifol ethnig rhwng 2018/19 a 2024/25. O blith staff anacademaidd yr oedd eu cefndir ethnig yn hysbys, roedd gan 5% gefndir lleiafrifol ethnig yn 2018/19 a chynyddodd hyn i 7% yn 2024/25.

Y grŵp cefndiroedd ethnig Cymysg neu Luosog oedd y grŵp cefndir lleiafrifol ethnig mwyaf ymhlith staff anacademaidd ac roedd i gyfrif am 2% o staff anacademaidd yn 2024/25.

### Darparwyr – staff academaidd

Roedd cyfran y staff academaidd o gefndir lleiafrifol ethnig yn 2024/25 yn amrywio rhwng 10% ym Mhrifysgol Aberystwyth a 28% ym Mhrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant.

Ar gyfer pob darparydd, Asiaidd oedd y cefndir lleiafrifol ethnig mwyaf cyffredin ymhlith staff academaidd yn 2024/25. Roedd hyn hefyd yn wir yn y rhan fwyaf o'r blynyddoedd blaenorol.

### Darparwyr - staff anacademaidd

Roedd cyfran y staff anacademaidd o gefndir lleiafrifol ethnig yn 2024/25 yn amrywio rhwng 4% ym Mhrifysgol Bangor a 12% ym Mhrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant.

Ar gyfer pob darparydd, Asiaidd oedd y cefndir lleiafrifol ethnig mwyaf cyffredin ymhlith staff anacademaidd 2024/25. Roedd hyn gan amlaf yn wir mewn blynyddoedd blaenorol hefyd.

## Rhyw

Yn 2022/23, cyflwynwyd yr opsiwn i nodi bod staff wedi gwrthod darparu data rhyw. Mae hyn yn golygu, ers 2022/23, fod nifer fach o staff heb ddarparu gwybodaeth am ryw.

### Sector – staff academaidd

Roedd mwy o staff academaidd gwrywaidd na benywaidd bob blwyddyn o 2018/19 i 2024/25. Fodd bynnag, mae'r niferoedd wedi dod yn fwy cyfartal ac yn 2024/25 roedd y

naill a'r llall i gyfrif am 50% o'r staff, gyda gwahaniaeth o lai na 70 allan o 11,085 o aelodau staff academaidd.

**Sector - staff anacademaidd**

Yn 2024/25 menywod oedd 63% o'r staff anacademaidd. Mae'r gyfran hon wedi bod tua'r un fath ers sawl blwyddyn.

**Darparwyr – staff academaidd**

Ar lefel darparwyr roedd cymysgedd o ddarparwyr â mwyafrifoedd gwrywaidd neu fenywaidd ymhlith eu staff academaidd yn 2024/25. Fodd bynnag, i'r rhan fwyaf o ddarparwyr mae cyfran y staff academaidd sy'n fenywod wedi bod yn cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Yr eithriad i hyn oedd Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant lle mae cyfran y staff academaidd sy'n fenywod wedi bod yn gostwng, er mai yn 2024/25 y Brifysgol honno oedd â'r gyfran fwyaf cytbwys o staff academaidd gwrywaidd a benywaidd.

Yn 2024/25 roedd y mwyafrifoedd yn amrywio rhwng mwyafrif o 62% o fenywod ym Mhrifysgol Wrecsam a mwyafrif o 54% o ddynion ym Mhrifysgol Abertawe.

**Darparwyr - staff anacademaidd**

O 2018/19 i 2024/25, menywod fu mwyafrif y staff anacademaidd ym mhob darparydd ym mhob blwyddyn.

Yn 2024/25 roedd meintiau'r mwyafrifoedd benywaidd hyn yn amrywio rhwng 57% ym Mhrifysgol Aberystwyth a 64% ym Mhrifysgol Bangor, Prifysgol Caerdydd a Phrifysgol De Cymru.

# Gwybodaeth am ansawdd a methodoleg

## Ffynonellau data

Caiff cofnodion Myfyrwyr a Staff HESA eu casglu gan HESA, sy'n rhan o Jisc.

Mae crynodeb o'r broses casglu data ar gyfer y Cofnod myfyrwyr ar gael ar wefan HESA, gan gynnwys yr holl reolau ansawdd a ddefnyddir i wirio ansawdd y data. Mae gwybodaeth debyg hefyd ar gael am broses y Cofnod staff.

## Cwmpas

### Myfyrwyr

Mae'r data yn cynnwys myfyrwyr sydd wedi ymrestru ar gyrsiau addysg uwch mewn darparwyr yng Nghymru a ariennir yn uniongyrchol gan Medr ar gyfer darpariaeth addysg uwch, a darparwyr yng Nghymru sy'n dychwelyd data i HESA ar gyrsiau addysg uwch sydd wedi'u dynodi'n benodol.

Ers 2023/24, mae'r data yn cynnwys data ar gyfer 5 darparydd AU nad oeddent cyn hynny wedi cyflwyno data i gofnod myfyrwyr HESA. Y rhain oedd:

- Canolfan y Dechnoleg Amgen
- Coleg Caerdydd a'r Fro
- Coleg Cambria
- Coleg Gwent
- Sefydliad Padarn Sant

Dychwelodd Ysgol Ddiwinyddol yr Undeb ddata yn 2023/24 am y tro cyntaf hefyd, ond ni wnaeth hynny yn 2024/25 gan nad oedd ganddi unrhyw gyrsiau wedi'u dynodi'n benodol i adrodd amdanynt, ac felly nid oedd mwyach o fewn y cwmpas.

Yr ymrestriadau sydd wedi'u cynnwys yw'r rhai sydd wedi'u cynnwys ym mhoblogaeth gofrestru safonol HESA yn narparwyr AU Cymru. Gall myfyriwr gael mwy nag un ymrestriad mewn blwyddyn academaidd, os felly caiff pob ymrestriad ei gyfrif ar wahân.

I gael eich cynnwys ym mhoblogaeth safonol HESA, mae angen i'r sawl sy'n ymrestru fod yn astudio'n weithredol o leiaf bythefnos ar ôl ei ddyddiad dechrau ymgysylltu neu ben-blwyddi dilynol y dyddiad hwnnw. Mae myfyrwyr sy'n ysgrifennu (ac nad oes ganddynt unrhyw astudiaeth weithredol) ar ôl y dyddiad pen-blwydd hwn wedi'u heithrio o'r boblogaeth, yn ogystal â myfyrwyr y disgwylir iddynt astudio am bythefnos neu lai ac nad ydynt yn cwblhau eu hastudiaethau nac yn ennill cymhwyster. Mae myfyrwyr sy'n cael seibiant, myfyrwyr sy'n dod ar ymweliad ac ar gynllun cyfnewid o wledydd tramor, a myfyrwyr sy'n astudio eu holl raglen astudio y tu allan i'r DU hefyd wedi'u heithrio.

### Staff

Yr unig ddarparwyr o Gymru sy'n cyflwyno data i gofnod staff HESA yw'r wyth prifysgol yng Nghymru. Nid yw'r Brifysgol Agored yng Nghymru wedi'i chynnwys gan fod y data a

gyflwynir gan y Brifysgol Agored yn cynnwys staff yr holl Deyrnas Unedig, ac nid Cymru yn benodol.

Mae'r adroddiad hwn yn eithrio staff sy'n cael eu cyflogi ar gontract annodweddiadol gan na ellir eu cymharu â'r rhai ar fathau eraill o gontractau. Staff ar gontract annodweddiadol yw'r rhai hynny y mae eu contractau'n cynnwys trefniadau gwaith nad ydynt yn barhaol, sy'n cynnwys perthnasoedd cyflogaeth cymhleth ac/neu sy'n cynnwys gwaith y tu hwnt i oruchwyliaeth y darparydd gwaith arferol.

Cyfrifir niferoedd staff drwy ddefnyddio nifer cyfwerth â pherson llawn ar gyfer staff ar 1 Rhagfyr yn y flwyddyn adrodd, er enghraifft 1 Rhagfyr 2024 ar gyfer 2024/25.

## Diffiniadau

### Staff academaidd ac anacademaidd

Contractau ar gyfer cynllunio, cyfarwyddo a chynnal addysgu ac ymchwil academaidd yw contractau staff academaidd. Mae hyn yn cynnwys darlithwyr ac ymchwilwyr, ond hefyd Is-gangellorion, a gweithwyr meddygol proffesiynol sy'n gwneud gwaith ymchwil.

Mae contractau staff anacademaidd yn cynnwys rheolwyr, gweithwyr proffesiynol mewn swyddi anacademaidd, gweithwyr lles myfyrwyr, ysgrifenyddion, gofalwyr a glanhawyr.

### Oedran

Oedran ar 31 Awst yn y flwyddyn adrodd, e.e. 31 Awst 2024 ar gyfer 2024/25.

### Anabledd

Cesglir gwybodaeth am anabledd ar sail hunanasesiad ac nid oes unrhyw reidrwydd ar fyfyrwyr na staff i ddatgan unrhyw anableddau sydd ganddynt. Cesglir yr wybodaeth hon bob blwyddyn felly gallai newid dros amser.

### Ethnigrwydd

O ran y myfyrwyr, dim ond ar gyfer y rheiny y mae eu cyfeiriad parhaol yn y DU, Guernsey, Jersey neu Ynys Manaw cyn dechrau astudio y cesglir gwybodaeth am ethnigrwydd, ac fe'i cesglir ar sail hunanasesiad y myfyriwr. Cesglir yr wybodaeth hon bob blwyddyn felly gallai newid dros amser.

O ran y staff, cesglir gwybodaeth am ethnigrwydd yr holl staff ar sail hunanasesiad felly gall newid dros amser wrth gael ei hailgasglu.

### Cyfwerth â pherson llawn (staff)

Gall unigolion ddal mwy nag un contract gyda darparydd a gall pob contract gynnwys mwy nag un gweithgaredd. Mewn dadansoddiadau, mae niferoedd staff wedi'u rhannu ymhlith y gweithgareddau yn gymesur â nifer yr aelodau staff cyfwerth ag amser llawn a ddatganwyd ar gyfer pob gweithgaredd. Mae hyn yn arwain at gyfrif niferoedd cyfwerth â pherson llawn (CPhLl). Caiff cyfrifiadau CPhLl staff eu cyfrifo ar sail gweithgareddau contract a oedd yn weithredol ar 1 Rhagfyr yn y cyfnod adrodd.

Er enghraifft, os oes gan aelod o staff gontract academaidd i weithio 3 diwrnod yr wythnos a chontract anacademaidd i weithio 1 diwrnod yr wythnos, bydd yn cael ei gyfrif fel 0.75 aelod staff â chontract academaidd a 0.25 aelod staff â chontract anacademaidd.

### Rhyw

Mae cofnod myfyrwyr HESA yn casglu rhyw myfyrwyr a staff yn hytrach na'r rhywedd y maent yn uniaethu ag ef.

### Talgrynnu

Mae'r holl ffigurau wedi'u talgrynnu i'r 5 agosaf. Defnyddir ffigurau heb eu talgrynnu i gyfrifo'r cyfansymiau, ac yna talgrynnu i'r 5 agosaf. Mae'n bosib felly na fyddant yn hafal i swm y cydrannau.

Cyfrifir canrannau drwy ddefnyddio'r ffigurau heb eu talgrynnu. Gall hyn olygu na fydd y canrannau o bosib yn cyd-fynd â'r hyn a fyddai'n cael ei gyfrifo o ddefnyddio ffigurau wedi'u talgrynnu.

## Ystadegau cysylltiedig

Mae Myfyrwyr mewn Addysg Uwch yn cynnwys gwybodaeth fwy cyffredinol am fyfyrwyr mewn addysg uwch yng Nghymru, ac o Gymru sy'n astudio ledled y DU.

Mae Staff mewn sefydliadau addysg uwch yn cynnwys gwybodaeth fwy cyffredinol am staff addysg uwch yng Nghymru.

Mae Addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith a dysgu yn y gymuned yn cynnwys gwybodaeth am nodweddion dysgwyr mewn addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith a dysgu yn y gymuned.

Nid yw Medr yn cyhoeddi unrhyw ystadegau am staff addysg bellach. Fodd bynnag, mae Cyngor y Gweithlu Addysg yn cyhoeddi ystadegau am staff yn:

- Y sector ysgolion a gynhelir
- Y sector addysg bellach
- Y sector addysg oedolion
- Y sector ieuenctid cymwysedig
- Y sector annibynnol

Ceir hyd i'r rhain ar wefan Cyngor y Gweithlu Addysg.

## Datganiad Cydymffurfiaeth â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau

Caiff ein harferion ystadegol eu rheoleiddio gan y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau (OSR). Mae'r OSR yn gosod y safonau ar gyfer dibynadwyedd, ansawdd a gwerth yn y Cod Ymarfer Ystadegau y dylai holl gynhyrchwyr ystadegau swyddogol gadw atynt.

Caiff ein holl ystadegau eu cynhyrchu a'u cyhoeddi yn unol â nifer o ddatganiadau a phrotocolau, i gynyddu eu dibynadwyedd, eu hansawdd a'u gwerth. Mae'r rhain wedi'u nodi yn Natganiad Cydymffurfiaeth Medr ynghyd â'r Cod Ymarfer Ystadegau.

Mae'r ystadegau swyddogol hyn yn dangos y safonau a ddisgwylir o ran dibynadwyedd, ansawdd a gwerth cyhoeddus yn y ffyrdd canlynol.

### Dibynadwyedd

Mae'r ystadegau hyn wedi'u cyhoeddi yn unol â Datganiad Cydymffurfiaeth Medr a'r polisi ar weld ystadegau swyddogol cyn eu rhyddhau.

### Ansawdd

Y ffynonellau data ar gyfer y cyhoeddiad hwn yw cofnodion Myfyrwyr a Staff HESA. Ceir nifer o brosesau dilysu i sicrhau bod data a gyflwynir i'r naill gofnod a'r llall yn ddata o ansawdd da. Mae'r rhain yn cynnwys gwirio'r data yn erbyn rheolau ansawdd a gwiriadau yn erbyn data o flynyddoedd blaenorol. Codir unrhyw broblemau a ganfyddir drwy'r gwiriadau hyn gyda darparwyr fel y gallant naill ai roi esboniad, neu gyflwyno data wedi'u cywiro os oes gwall. Mae hon yn broses ailadroddus lle bydd data'n mynd drwy'r broses droson nes bod yn barod i'w cymeradwyo.

Mae Medr hefyd yn cyfarfod â darparwyr drwy gydol y flwyddyn i gael dealltwriaeth o unrhyw broblemau ansawdd data a allai godi i ddarparwyr unigol ac i roi cefnogaeth er mwyn datrys y problemau.

### Gwerth

Cynhyrchir yr ystadegau hyn i roi cipolwg o nodweddion cydraddoldeb myfyrwyr a staff yn y sector addysg uwch yng Nghymru. Fe'u defnyddir o fewn Medr a Llywodraeth Cymru i fonitro tueddiadau yn y sector addysg uwch. Dyma rai o'r prif ddefnyddwyr:

- Swyddogion ac aelodau Bwrdd Medr
- Gweinidogion a Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau yn y Senedd
- Swyddogion yn Llywodraeth Cymru
- Darparwyr Addysg Uwch a chyrff cynrychioliadol

## Gwybodaeth Gyswllt

Rydym yn croesawu unrhyw adborth am unrhyw agwedd ar yr ystadegau hyn.

Gellir anfon adborth, cwestiynau, a cheisiadau am ddata pellach drwy e-bost i: YstadegauAU@medr.cymru

Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

www.medr.cymru

2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ

Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**